# Dylan Thomas

## Gwers 3 – Cymeriadau 'Dan y Wenallt'

# Dan y Wenallt

- Yn y wers hon rydym yn mynd i ddysgu am gymeriadau ‘Dan y Wenallt’.

- Rydym yn mynd i greu ein cymeriadau ein hunain.

# Dan y Wenallt

- ‘Dan y Wenallt’ yw gwaith enwocaf Dylan Thomas.
- Disgrifiodd y gwaith fel cerdd ddramatig.
- Darlledwyd hi ar y radio fel drama.
- Mae’n disgrifio diwrnod mewn pentref yng Nghymru yn y ganrif ddiwethaf.

# Dan y Wenallt

- Mae nifer o gymeriadau doniol yn 'Dan y Wenallt'.
- Mae Dylan Thomas wedi rhoi enwau iddynt sydd yn cyd-fynd â'u cymeriadau.
- Dewch i edrych ar rai ohonynt.

# Dai Di-ddim

- Pysgotwr diog yw Dai Di-Ddim
- Fin nos, mae'n breuddwydio am ddim byd!

# Syr Wili Watsh

- Mae gan Syr Wili Watsh chwe deg chwech o glociau yn ei gegin.
- Mae un cloc ar gyfer pob blwyddyn o’i oed.
- Fin nos, mae’n breuddwydio am y clociau yn ei gegin.

# Organan Morgan

- Organ Morgan yw organydd y capel.
- Fin nos, mae'n breuddwydio am bobl y pentref yn canu.

# Cymeriad

- Dewch i ni greu ein cymeriad ein hunain!
- Dewiswch lun o rywun o gylchgrawn neu o'r rhyngrwyd.

# Cymeriad – Holwch gwestiynau

- Edrychwch ar y cymeriad gyda phartner
- Holwch, e.e.
  - Pa mor hen yw'r cymeriad?
  - Ble mae'n byw?
  - Beth yw ei waith e? / Beth yw ei gwaith hi?
  - Beth yw ei diddordebau e? / Beth yw ei diddordebau hi?
  - Beth mae'n ei gasáu?
  - Oes ganddo/ganddi dalent arbennig?
  - Oes cyfrinach ganddo/ganddi?
  - Oes ofn rhywbeth arno/arni?
  - Beth mae eisiau'n fwy na dim?
- Fyddwch chi ddim yn gwybod yr atebion – bydd rhaid eu creu nhw!

# Cymeriad – Sut mae'n edrych?

- Meddyliwch am ansoddeiriau i ddisgrifio eich cymeriad.

- Sut byddech chi'n disgrifio
  - ei g/olwg?
  - ei g/wisg ?
  - ei g/wallt?

# Cymeriad – Sut mae’n teimlo?

- Sut mae eich cymeriad yn teimlo, tybed?
- Pam mae’n teimlo fel hyn?

Eto – bydd rhaid i chi greu’r atebion!

# Dyma enghraifft



Dyma Eiry Matthews. Mae hi'n athrawes sydd yn gweithio yn Aberystwyth. Mae ganddi wallt hir brown, llygaid glas a mae hi'n berson ffit iawn.  Mae hi'n hoffi mynd i'r traeth ac wrth ei bodd yn nofio yn y môr. Mae hi'n hoffi bwyta'n iach a dyw hi ddim yn hoffi sglodion o gwbl..

Mae hi'n hapus iawn nawr achos mae hi wedi gweld ei mab Dafydd. Roedd e wedi bod ar goll achos ei fod wedi crwydro ffwrdd wrth chwilio am grancod.

# Cymeriad – Ysgrifennu disgrifiad

- Gan ddefnyddio'r atebion rydych wedi eu trafod, ysgrifennwch ddisgrifiad o'ch cymeriad.
- Cofiwch ddefnyddio atalnodi cywir wrth ysgrifennu.